



YSGOL Y GORLAN TREMADOG



Ysgol gynradd ddyddiol, gydaddysgol ddwyieithog
A daily primary, co-educational bilingual school



Gwybodaeth i rieni / Information for parents

Pennaeth / Headteacher : Mrs Eleri M Davies

CADEIRYDD Y CORFF LLYWODRAETHOL / CHAIR OF THE GOVERNING BODY

Mr Rhys Pugh

IS-ADEIRYDD / VICE CHAIR

Mr Sion Hughes

Medi 2023 / September 2023

Gair o groeso i Ysgol y Gorlan

Annwyl Rieni / Gwarchodwyr,

Wrth gyflwyno'r llawlyfr yma "Gwybodaeth i Rieni" fe garem estyn croeso cynnes i chi a'ch plentyn i Ysgol y Gorlan.

Pwysleisw'n mai partneriaeth yw addysg rhyngom ni yma a chwithau yn y cartref. Mewn cydweithrediad fe obeithiwn y bydd cyfnod eich plentyn gyda ni yn un hapus ac y bydd yn datblygu'n addysgol, emosiynol a chymdeithasol. Drwy ein hadnabyddiaeth o anghenion bob plentyn, byddwn yn ymateb yn rhagweithiol ac yn sicrhau bod pob disgybl unigol yma yn Ysgol y Gorlan, yn cyrraedd eu llawn potensial a thyfu'n ddysgwyr annibynnol sy'n aelodau gwerthfawr o'n cymuned.

Gobeithiwn y bydd y llawlyfr yma o gymorth i chi adnabod yr ysgol a'r modd y gallwch chi atgyfnerthu ein gwaith gyda'ch plentyn. Cyflwynir manylion am nifer o bethau sydd o bwys i gynorthwyo trefniadaeth yr ysgol ac i helpu eich plentyn i ymgartrefu'n fuan. Mae Cwricwlwm Newydd i Gymru bellach yn weithredol, a'n datganiad o fwriad o fewn atodiad arwahan.

Er hynny nid oes modd cynnwys yr holl wybodaeth am yr ysgol yma ac fe nodir y gall rhai manylion newid wedi amser cyhoeddi'r llawlyfr. Fe'ch gwahoddir i drafod ei gynnwys (neu unrhyw beth nad ydyw wedi ei gynnwys) gyda mi gan gysylltu gyda'r ysgol.

Mae copi o'r gytundeb ysgol/ cartref i'w weld o fewn atodiad ar ddiwedd y llawlyfr.

Gyda phob dymuniad da am gyfnod hapus, diogel a llwyddiannus yn ein mysg.

Yn gywir,

Eleri M Davies

Welcome to Ysgol y Gorlan

Dear Parents/ Guardians,

In presenting this handbook, "Information for Parents" we welcome both you and your child to Ysgol y Gorlan.

We emphasise from the outset that school is a partnership between ourselves and the home. With your co-operation we hope that your child's time here will be a happy one and that we will see continuous education, emotional and social development in your child through work and play. Our understanding of each pupil in our care will allow us to respond pro-actively to needs and ensure that all learners at Ysgol y Gorlan achieve their full potential to become independent learners and valuable members of our community.

The New Curriculum for Wales is now in being, and our Statement of Intent is found within an appendix.

This handbook is presented to give you an indication of the nature of our school. It contains information vital to the day to day management of the school and to assist your child to settle quickly. However this handbook is not exhaustive and whilst the particulars are correct at the time of publication, it cannot be guaranteed there will be no changes. You are therefore welcome to discuss its' content (or anything else which you feel has not been included) with me by contacting the school.

A copy of the home/school agreement is within an attachment at the end of this handbook.

We wish you a successful, safe and happy time amongst us.

Yours sincerely,

Eleri M Davies

Trefn y dydd

Mae croeso i chwi ymweld â'r ysgol unrhyw amser, ond dylid yn gyntaf trefnu apwyntiad gyda'r Pennaeth er mwyn sicrhau digon o amser i drafod. Rydym oll yn cydweithio er lles pob plentyn yn yr ysgol.

AMSER YSGOL

| | |
|------------------|---------------------------------|
| 9.00am – 11.00am | Dosbarth Meithrin |
| 9.00am - 3.15pm | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 |
| 9.00am - 3.30pm | Blynyddoedd 3 - 6 |

Disgwylir i'r plant gyrraedd yr ysgol ar ôl 8.50 y bore yn barod i fod yn y dosbarth am 9.00. Mae goruchwyliaeth o 8.50 ymlaen, a ni dderbynnir cyfrifoldeb am y disgyblion cyn hyn oni bai eu bod yn mynychu'r Clwb Brecwast.

Os yr ydych yn debygol o fod yn hwyr yn codi eich plant ar ddiwedd dydd, yna gwnewch pob ymdrech i'n hysbysu ni o.g.y. dda er mwyn i ni leddfu ofnau'r plentyn.

CYSYLLTU Â'R YSGOL

| | |
|------------|--|
| Rhif ffôn: | 01766 512773 |
| E-Bost:: | pennaeth@gorlan.ysgoliongwynedd.cymru |
| Gwefan | ysgolygorlan.cymru |

Mae aelodau staff a Phennaeth yr ysgol ger y giatiaau bob bore a phrynhawn yn cyfarch a sgwrsio.

Our daily pattern

You are welcome to visit us at any time, but an appointment should first be arranged with the headteacher in order to ensure enough time for our discussion. We all work together for the benefit of each child at the school.

SCHOOL TIME

| | |
|-----------------|--------------------------------|
| 9.00am -11.00am | Nursery Class |
| 9.00am - 3.15pm | Reception Class, Years 1 and 2 |
| 9.00am - 3.30pm | Years 3 - 6 |

Children are expected to arrive at school after 8.50 in order to be in class, ready to work at 9 am.

Children are supervised from 8.50 onwards. Please note we accept no responsibility prior to 8.50 unless your child is attending the Breakfast Club.

If you are unexpectedly late collecting your child, please make every effort to inform us so that we can explain to your child and rid them of any worries.

| | |
|---------------|--|
| Phone number: | 01766 512773 |
| E-mail: | pennaeth@gorlan.ysgoliongwynedd.cymru |
| Webpage | ysgolygorlan.cymru |

In addition, the Head Teacher and school staff are always by the gates every morning and afternoon, meeting and greeting whoever wants a word.

Manylion yr ysgol / School details

| | |
|---|---|
| Cyfeiriad / Address | Ysgol y Gorlan Tremadog Porthmadog Gwynedd LL49 9RN |
| Rhif Ffôn / Phone Number | 01766 512773 |
| E-Bost / E-Mail | pennaeth@gorlan.ysgoliongwynedd.cymru |
| Pennaeth / Headteacher | Mrs Eleri M Davies |
| Cadeirydd Llywodraethwyr / Chair of Governors | Mr Rhys Pugh |
| AWDURDOD ADDYSG GWYNEDD Pennaeth Ysgolion Adran Addysg Swyddfa'r Cyngor Caernarfon Gwynedd LL55 1SH | GWYNEDD EDUCATION AUTHORITY Head of Schools Department of Education Council Offices Caernarfon Gwynedd LL55 1SH |
| 01286 672255 | 01286 672255 |
| Nyrs ysgol / School nurse | Angela Cronin 03000 852493 |
| Swyddog Lles / Welfare Officer | Heledd Williams 07867 194028 |

Ble mae'r ysgol? / Where are we?

Mae'r ysgol yn swatio'n daclus o dan 'Creigiau'r Dre' ar ymyl pentref Tremadog. Mae Ysbyty Alltwen yn gymydog agos, Moel y Gest yn ei ogoniant o'n blaenau a digon o dir ffermio agored o'n cwmpas.

The school is situated at the foot of 'Creigiau'r Dre' at the edge of Tremadog. Alltwen Hospital is a near neighbour, Moel y Gest in all its glory is directly ahead and plenty of open farmland all around.

STAFF YR YSGOL / THE SCHOOL STAFF

| | |
|--|--|
| Pennaeth / <i>Headteacher</i> | Mrs Eleri Davies |
| Pennaeth Cynorthwyol/ <i>Assistant Headteacher</i> | Mrs Carys Jones |
| Staff addysgu / <i>Teaching Staff</i> | Mrs Elen Beaven Mrs Annest Glyn Miss Stephanie Grimes Miss Bethan Jones |
| Cymorthyddion dosbarth/ <i>Classroom Assistants</i> | Miss Eleri Parry Mrs Bethan Roberts Mrs Fiona Williams Ms Sara Jones Ms Hana Crisiant Ms Elin Jones Mr Jake Edwards Mrs Erica Edwards-Roberts Mrs Georgina Evans |
| Gofalwr / <i>Caretaker</i> Glanhawraig / <i>Cleaner</i> | Mrs Leanne Rochford-Jones Mrs Caroline Edwards |
| Cogyddes / <i>Cook</i> | Mrs Emma Page |
| Cymhorthydd cegin / <i>Kitchen Assisstant</i> | Mrs Leanne Rochford-Jones |
| Clerc swyddfa a chinio / <i>Office and dinner clerk</i> | Ms Hana Crisiant / Miss Eleri Parry |
| Gofalwyr amser cinio / <i>Lunchtime Supervisors</i> | Miss Eleri Parry Mrs Erica Edwards-Roberts |

Rydym hefyd yn derbyn gwasanaeth/ *We also receive the sevices of :-*

- Amrywiaeth o gymorth ymestyn allan A.A.LI / *A variety of L.E.A outreach services*
- Athrawon offerynnol peripatetic / *Instrumental peripatetic teachers*
- Heddlu Gogledd Cymru/ *North Wales Police*
- Gwirfoddolwyr / *Volunteers*

Ystyrir yr angen i brynu gwasanaeth arbenigol ychwanegol ar gyfer agweddau eraill o'r cwricwlwm yn ystod y flwyddyn.
We also purchase specialist help with other aspects of the curriculum, if needed during the year.

TREFN DOSBARTHADAU MEDI 2023 /
CLASS ARRANGEMENTS FOR SEPTEMBER 2023

| | |
|--|---|
| MEITHRIN/ NURSERY | Mrs Elen Beaven |
| DERBYN/ BLWYDDYN 1 RECEPTION/ YEAR 1 | Mrs Annest Glyn |
| BLYNYDDOEDD 2 YEARS 2 | Miss Stephanie Grimes/ Mrs Elen Beaven |
| BLYNYDDOEDD 3 A 4 YEARS 3 AND 4 | Miss Bethan Jones/ Miss Stephanie Grimes |
| BLWYDDYN 5 a 6 YEAR 5 a 6 | Mrs Carys Jones/ Miss Stephanie Grimes |

Gyda dyfodiad Cwricwlwm Newydd i Gymru , nid oes yna bellach gyfeirio at y Cyfnod Sylfaen na Chyfnod Allweddol gan bod y Cwricwlwm yn gwasanaethu o 3-16 oed.

Bydd rhyddid unwaith yn rhagor i ni gymysgu dosbarthiadau wrth i ni gyd-weithio ar rhai elfennau o'r Cwricwlwm, felly peidiwch synnu os daw eich plentyn gartref ac adrodd ei fod wedi treulio amser efo athro neu ddosbarth gwahanol!

With the New Curriculum for Wales, there is no more Foundation Phase or Key Stage grouping since this Curriculum serves pupils from 3-16 years of age.

We return once again to the freedom of being able to mix our classes and work alongside each other on curricular aspects. Don't be surprised if your child arrives home to say they've spent part of the day with another teacher or class!

Y CORFF LLYWODRAETHOL / THE GOVERNING BODY

| | |
|--|--|
| Cyngor Gwynedd Council | Rhys Pugh Sion Hughes Carys Jones |
| Cyngor Tref / Cymuned <i>Town / Community Council</i> | Sedd wag |
| Rhieni / <i>Parents</i> | Gwen Raine Delyth Evans Rebecca Pratt |
| Cymunedol / <i>Community</i> | Anna Price-Clishem Alison Ellis Megan Lloyd Williams |
| Athrawon / <i>Teachers</i> | Carys Jones |
| Staff Ategol / <i>Ancillary Staff</i> | Eleri Haf Parry |
| Pennaeth / <i>Headteacher</i> | Eleri M Davies pennaeth@gorlan.ysgoliongwynedd.cymru |
| Clerc / <i>Clerk</i> | MeleriMairGriffith@gwynedd.llyw.cymru |

**Gellir cysylltu gyda Chadeirydd y Llywodraethwyr drwy'r Pennaeth neu'r Clerc.
*The Chairman can be contacted through the Headteacher or the Clerk.***

Mae gan y Llywodraethwyr gyfrifoldebau neilltuol. Maent yn cydweithio er lles yr ysgol ac er lles addysg eich plant.

Maent yn cyfarfod o leiaf unwaith y tymor :-

- i) i ymateb i adroddiad y Pennaeth,
- ii) i drafod a llunio polisiau/ penderfyniadau (ee, cyllideb yr ysgol, cynllun datblygu'r ysgol).

Cyflwynir adroddiad blynyddol i'r rhieni a cheir cyfle i ymateb iddo. Ceir fwy o wybodaeth am ddyletswyddau ar www.governorswales.org.uk/cymraeg

The governors have specific responsibilities and work together for the benefit of the school and your child's education.

They meet at least once each term:-

- i) *to respond to the headteacher's report,*
- ii) *to discuss and formulate policies/decisions (eg, school budget, school development plan.)*

An annual report is prepared for parents together with the opportunity to respond. Further details regarding responsibility can be found at

www.governorswales.org.uk

DATGANIAD CWRICWLAIDD/ CURRICULAR STATEMENT

Yma, yn Ysgol y Gorlan byddwn yn darparu profiadau sy'n sicrhau bod ein plant yn gadael addysg gynradd yn ddysgwyr parchus ac iach, hapus a balch, caredig ac empathetig; dysgwyr sy'n gallu chwarae a dysgu gyda phawb tra hefyd bod yn annibynnol.

Mewn ardal sydd yn gyfoethog ei hanes, ei chymuned a'i Chymreictod, anelwn i gyflwyno profiadau ysgogol, a mynnu safonau uchel er mwyn i'n dysgwyr wynebu heriau byd sy'n gyson newid a datblygu.

Mae adnabyddiaeth o'r adral leol yn amhrisiadwy, fel ein bod, maes o law yn gallu cyfrannu yn ôl i'n cymuned leol.

Byddwn hefyd yn lledaenu gorwelion ein plant tuag at ymwybyddiaeth Cenedlaethol a rhyngwladol.

Ein nôd yw bod bob plentyn yn dilyn cryfderau a dyheuadau ei hun gan feithrin atebolrwydd o gyfrifoldeb personol ac empathi tuag at eraill. Trwy wneud defnydd o'r tir gwyrdd a'r goedwig sydd gennym, mae gofalu am ein gilydd a'n byd yn flaenoriaethau parhaol yma.

Ymfalchiwn yn ethos gynhaliol yr ysgol - 'rydym yn bwydo'r galon er mwyn bwydo'r dysgu ac yn hynny o beth, yn meithrin unigolion gwâr o gymdeithas.

Gweledigaeth Ysgol y Gorlan



Ysgol y Gorlan - Our vision



Here, at Ysgol y Gorlan we will provide experiences that ensure that our children leave primary education respectful, healthy, happy, proud, kind and empathetic; learners who can play and learn with everyone while also being independent.

In an area rich in history, community and Welshness, we aim to present experiences that motivate, and demand high standards so that our learners can face the challenges of a constantly changing and developing world.

Knowledge of the local community is invaluable, so that, in due course, we can contribute back into our local community. We will also broaden our children's horizons towards National and international awareness.

Our aim is that all children follow their own strengths and aspirations, fostering accountability of personal responsibility and empathy towards others.

By making use of the green land and forest we have on site, taking care of each other and our world is a permanent priority.

We are proud of the school's supporting ethos - 'we feed the heart to feed the learning, and in that respect, nurture civilized individuals of society.

Y CWRICWLWM / THE CURRICULUM

'Rydym yn darparu addysg i blant rhwng 3 ac 11 oed. Datblygwyd ein nodau cwricwlaidd a'n gweledigaeth mewn cydweithrediad â phlant, staff, rhieni, llywodraethwyr ac aelodau o gymuned ein hysgol. Maent yn ein huno ac yn creu hinsawdd a diwylliant ein hysgol, yn sicrhau lles ein dysgwyr a'n staff, ac addysgu a dysgu effeithiol. Rydym yn parhau i gynllunio cwricwlwm pwrpasol ac ystyrlon gyda chyd-destunau dilys ar gyfer dysgu, yn unol â'r canllawiau a nodir yn 'Cwricwlwm i Gymru'. Mae ein cwricwlwm yn cwmpasu popeth y mae dysgwr yn ei brofi wrth fynd ar drywydd y pedwar diben.

Pedwar diben Cymru –

- Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eu hoes;
- Dysgwyr mentrus, creadigol, sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith;
- Dinasyddion egwyddorol, gwybodus;
- Unigolion iach, hyderus, sy'n barod i fyw bywydau boddhaus fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

Y chwe maes dysgu a phrofiad (MDPh):

- Celfyddydau mynegiannol
- Iechyd a lles
- Dyniaethau
- Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
- Mathemateg a rhifedd
- Gwyddoniaeth a thechnoleg.

Mae cyfrifoldebau **trawsgwricwlaidd llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol** wedi'u cydblethu drwy bob maes dysgu a phrofiad.

Rydym yn darparu cwricwlwm :-

- Eang - sicrhau ystod eang o gyfleoedd dysgu ar draws pob maes dysgu.
- Cytbwys - sicrhau bod pob maes yn cael yr un pwysiad a phwysigrwydd.
- Perthnasol - sicrhau datblygiad priodol o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth sy'n berthnasol i oedran, dawn a gallu'r plentyn.
- Gwahaniaethol - sicrhau mynediad llawn i'r cwricwlwm i bob dysgwr.
- Blaengar - sicrhau dilyniant a pharhad yn nysgu a datblygiad pob plentyn.
- Creadigol - sicrhau bod chwilfrydedd a llais naturiol pob plentyn yn cael ei werthfawrogi.
- Rhoi sylw i lais y Disgybl – effeithio ar sut a beth maent eisiau ei ddysgu, a sut maent eisiau cofnodi eu canfyddiadau.

We provide education for children between 3 and 11. Our curricular aims and our vision were developed in collaboration with children, staff, parents, governors and members of our school community. They unite us and create the climate and culture of our school, ensuring the well-being of our learners and staff and effective teaching and learning. We continue to design a purposeful and meaningful curriculum with authentic contexts for learning, in line with the guidance set out in 'Curriculum for Wales'. Our curriculum encompasses everything a learner experiences in pursuit of the four purposes.

The curriculum for Wales' four purposes –

- *Ambitious, capable learners ready to learn throughout their lives;*
- *Enterprising, creative contributors, ready to play a full part in life and work;*
- *Ethical, informed citizens of Wales and the world;*
- *Healthy, confident individuals, ready to lead fulfilling lives as valued members of society.*

The six areas of learning and experience (AoLE's):

- *Expressive arts*
- *Health and well-being*
- *Humanities*
- *Languages, literacy and communication*
- *Mathematics and numeracy*
- *Science and technology*

Cross-curricular responsibilities of **literacy, numeracy and digital competence are interwoven** through all areas of learning and experience.

We provide a curriculum that is:

- *Broad - ensuring a wide range of learning opportunities across all areas of learning;*
- *Balanced - ensuring that all areas are given equal weighting and importance;*
- *Relevant - ensuring appropriate development of knowledge, skills and understanding relevant to the child's age, aptitude and ability;*
- *Differentiated - ensuring full access to the curriculum for all learners;*
- *Progressive - ensuring continuity and progression in each child's learning and development;*
- *Creative - ensuring each child's natural curiosity and voice is valued;*
- *Inclusive of the Pupil's Voice – impacting how they want to learn, what they want to learn, and how they want to record their findings.*

TREFNIADAU DERBYN / ADMISSION ARRANGEMENTS

Mae dalgyllch Ysgol y Gorlan yn cynnwys ardaloedd Tremadog, Prenteg, Penmorfa, Golan, Treflys a Chwmystradllyn. Derbynnir plant i'r sesiwn feithrin yn y mis Medi yn dilyn eu pen blwydd yn dair oed. Derbynnir plant yn llawn amser i'r ysgol yn y mis Medi yn dilyn eu pen blwydd yn bedair oed. **Yn unol â pholisi mynediad yr Awdurdod, rhaid cyflwyno ceisiadau mynediad i'r A.A.LI a chyflwyno ail gais i drosgwlyddo o'r Meithrin i'r Derbyn.**

Dylai unrhyw riant sy'n dymuno i'w plentyn gael ei dderbyn i'r ysgol gysylltu'n uniongyrchol gyda'r Swyddog Gwybodaeth, sef Owain Dewi Hughes, ar 01286 679 904 neu drwy www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Ysgolion-a-dysgu/Mynediad-i-ysgolion.aspx

** Noder mai Chwefror 1af, 2024 yw'r dyddiad cau nesaf ar gyfer ceisiadau i'r Meithrin / Derbyn Medi 2024**

*The catchment area for Ysgol y Gorlan covers Tremadog, Prenteg, Penmorfa, Golan, Treflys and Cwmystradllyn. Children are admitted to the nursery session in the September following their third birthday. Children are admitted to school full time in the September following their fourth birthday. **In accordance with the L.E.A's policy, all admission requests must be through the L.E.A and a second request must be sent to transfer from the Nursery to Reception.***

Any parent requesting admission is asked to contact the relevant officer for the L.E.A :- Mr Owain Dewi Hughes on 01286 679 904 or through www.gwynedd.llyw.cymru/en/Residents/Schools-and-learning/School-admissions.aspx


**** Please note that the next deadline for admission to the Nursery/ Reception is February 1st, 2024 for September 2024*

TROSGWYDDO DISGYBLION I'R YSGOL UWCHRADD / TRANSITION OF PUPILS TO THE SECONDARY SCHOOL

Ar derfyn Blwyddyn 6, trosglwyddir eich plentyn i Ysgol Eifionydd, Porthmadog, sef Ysgol Uwchradd y dalgyllch – onibai dymunwch yn wahanol. Yr un yw'r trefniadau parthed mynediad a rhoi cais i'r Awdurdod cyn Rhagfyr 22ain, 2023 ar gyfer mynediad Medi 2024. Cyflwynir gwybodaeth i chi mewn da bryd am yr ysgol hon ac fe drefnir cyfle i'r plant dreulio cyfnodau blasu yno. Gwahoddir chwithau fel rhieni i gyfarfod agored gan yr ysgol ac i gwrrdd â'r Pennaeth. 'Rydym yn ymfalchio yn y berthynas clos sy'n bodoli rhwng y ddwy Ysgol, a bydd gofynion y Cwricwlwm Newydd yn cryfhau hyn yn fwyfwy.

At the end of Year Six your child will transfer to Ysgol Eifionydd, Porthmadog, the catchment's Secondary school – unless you wish otherwise. The same admission policy remains regarding a request to the Authority before December 22nd, 2023 for admission in September 2024. Details will be sent to you well before the end of the final term and the children will be provided with an opportunity to spend taster time at the school. Parents will be invited to an open meeting and to meet the Headteacher. We are proud of the close relationship that we have as two schools, and the New Curriculum only serves to further strengthen this bond.

Pennaeth / Headteacher : Mr Dewi Bowen



Ysgol Eifionydd

Porthmadog
Gwynedd
LL499HS

Ffon / Phone: 01766 512114

E-Bost / E-Mail : cyffredinol@eifionydd.gwynedd.sch.uk

SUT Y BYDDWN NI YN CYSYLLTU Â CHI ? HOW DO WE KEEP IN CONTACT WITH YOU?

Mae cyswllt rhwng cartref ac ysgol yn hanfodol. Pob tymor ysgol byddwn yn anfon bwletin sy'n nodi prif ddiwyddiadau'r ysgol am y tymor, prif ddyddiadau ac ati. Ni fyddwn yn anfon cylchlythyrau / llythyrau drwy law y postmon ardderchog hwnnw, sef eich plentyn! 'Rydym yn ymdrechu i fod yn eco gyfeillgar drwy arbed defnyddio papur. Mae gohebiaeth yn eich cyrraedd drwy app SeeSaw ond bydd hefyd fel arfer ar gael drwy ein tudalen Gweplyfr. ' Rydym yn achlysurol defnyddio e-bost /neges destun ar gyfer cyhoeddiadau pwysig e.e cau'r ysgol. Er mwyn derbyn rhain mae'n RHAID eich bod wedi cofrestru i drefn taliadau ar lein yr Awdurdod. **Gofynnir i chi sicrhau eich bod yn ein hysbysu am newiadau yn eich manylion cyswllt (e.e. newid e-bost / rhif ffon symudol).**



Cyflwynir adroddiad ysgrifenedig am waith eich plentyn unwaith y flwyddyn yn ystod Tymor yr Haf gan gyfeirio, pan yn berthnasol, at ganlyniadau asesiadau profion Cenedlaethol y Llywodraeth. Byddwch yn derbyn gwahoddiad swyddogol i drafod cynnydd eich plentyn yn dymhorol gan gwrdd a'r athro/athrawes ddosbarth.

Byddwn yn cysylltu â chwi os byddwn angen trafod materion eraill yn ymwneud â'ch plentyn. Mae hyn er mwyn canmol yn ogystal â mynegi pryder!

Mae'n eithriadol o bwysig ein bod yn annog rhieni i gymryd diddordeb byw yng ngwaith eu plant er mwyn magu perthynas dda rhyngom. Pan yn berthnasol cynhelir amryw o nosweithiau Cwricwlaidd lle bydd cyfle i chwi dderbyn arweiniad a syniadau ynglŷn â sut y gallwch chi gynorthwyo eich plentyn gartref.

...



Contact between home and school is an essential to the partnership. Each term an events bulletin will be sent to you noting important dates, events etc. Circulars / letters are generally not given to pupils to take home in an attempt to be eco-friendly.

*To lessen our use of paper we use the SeeSaw app, and usually our Facebook page. We occasionally use e-mail / text messages to relay really important announcements e.g school closure. In order to receive these you **MUST** be registered with the Authority's online payment system., **We therefore ask that you keep us informed of any change in your contact details (e.g changing your e-mail/ mobile phone number).***

A written report is presented annually in the Summer Term regarding your child's work. This will also refer (if applicable) to the National Tests assessments. You will be officially invited to meet the class teacher to discuss your child's progress once a term.

We will also contact you if we wish to discuss any further matters with you regarding your child. This will be to praise as well as raise concerns!

It is extremely important that we encourage parents to take a keen interest in their children's work so that a good relationship is developed between us all. During the school year, if relevant, we host curricular evenings for parents which will provide you with guidance and ideas on how to further help your child at home.

CYSYLLTU EFO'R YSGOL / CONTACTING SCHOOL

Mae galwadau ffôn i'r ysgol yn cael eu hateb gan yr Uned Gefnogi Addysg yn y lle cyntaf rhwng 8 y bore ac 1 y prynhawn. Mae posib i chi barhau i e-bostio wrth gwrs ac mae staff ger y giat yn y bore a'r prynhawn hefyd.

Mae app SeeSaw yn cysylltu'n uniongyrchol gyda'r athro dosbarth. Cewch negeseuon pwysig gan yr Ysgol hefyd drwy'r app hwn. Mae staff ar gael i ymateb i negeseuon Seesaw hyd at 5 y prynhawn ar ddyddiau Ysgol.

Gofynnir i chi BEIDIO cysylltu efo Staff drwy neges breifat gwefannau cymdeithasol – mae pawb rhy brysur i'w darllen!

Pan yn ffonio, bydd yr opsiynau a ganlyn ar gael i chi:

1. Absenoldebau – cewch adael neges ar beiriant ateb yn nodi manylion absenoldeb eich plentyn.
2. Swyddfa – cewch siarad a gadael neges gyda Chymhorthydd Gweinyddol yr Uned. Mewn achosion o argyfwng, bydd yr alwad yn cael ei throsglwyddo'n syth i'r ysgol gan y Cymhorthydd Gweinyddol.

Phone calls to the school are answered between 8 am and 1 pm by the Education Support Unit in the first instance. You can of course continue to e-mail and Staff will be by the gate both in the morning and afternoon.



be

The SeeSaw app gives direct contact with the class teacher. Important messages from school will also be sent via this app. Staff are available to answer your Seesaw messages until 5 pm on school days.

Please DO NOT contact staff through social media private messages – we're all too busy to see them!

When you telephone the school, the following options will be available to you:

1. Absences – you can leave a message on the answering machine to note the details of your child's absence.
2. Office – where you can talk to and leave a message with the Unit's Administrative Assistant. In emergencies, the call will be transferred immediately to the school by the Administrative Assistant.

DIOGELU DATA / DATA PROTECTION

Yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data bydd urhyw wybodaeth a gyflwynir i'r ysgol yn cael ei gadw'n gwbl gyfrinachol ac ar gyfer hybu addysg disgyblion a rheolaeth yr ysgol yn unig. Cewch ragor o fanylion am sut rydym yn trin eich gwybodaeth fel atodiad i'r llawlyfr hwn.

In accordance with the Data Protection Act any information given to the school will be kept confidentially and used for promoting the education of pupils and school management purposes only. For further information regarding how we deal with your information, please refer to the ATTACHMENT at the end of this handbook.

CYFEILLION YSGOL Y GORLAN FRIENDS OF THE SCHOOL

Mae yna nifer o weithgareddau cymdeithasol yr hoffem i chi fanteisio arnynt hefyd i ddod i adnabod ethos yr ysgol, y staff a rhieni eraill. Mae Cyfeillion yr Ysgol yn griw prysur a ffyddlon iawn sy'n ein galluogi i roi y 'pethau ychwanegol' i'n dysgwyr. Beth am ddod draw i'n gweithgareddau neu ymuno â'r Pwyllgor? Daw gwybodaeth tymhorol i chi o ddyddiadau ac amseroedd cyfarfod.



Yn y gorffennol, bu ffeiriau, pacio bagiau, helpa drysor, stondin gacennau, disgos a llawer mwy! Mawr yw ein diolch i'r pwyllgor prysur hwn. Cewch eu hanes ar y dudalen Gweplyfr / Facebook "Cyfeillion Ysgol y Gorlan".



There are also many social events we would like you to enjoy and participate in to further understand the school's ethos and to get to know the staff and other parents. The work of the Friends of the School is very important – this dedicated group allow us to provide many 'extras' for our learners. Why not come and join in some of the activities or become a committee member? Dates and times are provided termly.

Examples of their activities are fairs, bag packing, treasure hunt, cake stalls, discos etc. We greatly value the importance of this busy committee. Details can be found on their Facebook page, 'Cyfeillion Ysgol y Gorlan'.

GWISG YSGOL / SCHOOL UNIFORM

Mabwysiadwyd gwisg ysgol oherwydd credir bod gwisg ysgol yn arwain at feithrin balchder yn yr ysgol ac ymdeimlad o berthyn iddi. **Disgwylir i'r plant fod wedi eu gwisgo'n lân a bod eu dillad yn cydymffurfio â lliwiau'r wisg Ysgol.** Os dymunwch, mae'r wisg efo logo ar gael gan Dafydd Lake lakedigital.co.uk.

Dylai fod gan pob plentyn esgidiau ysgafn, trowsus cwta a chrys T ar gyfer addysg gorfforol. Haws yw gadael y cit yma am yr wythnos. Nid yw bicinis yn dderbyniol ar gyfer gwersi nofio. Os yw'r plant am wisgo clustdlysau yna caniateir rhai 'stud' yn unig er mwyn diogelwch. Yn ystod tywydd poeth mae angen cap ac eli haul.

Gofynnir ar adegau i blant ddod ag esgidiau glaw a dillad nad oes bwys iddynt faeddu ar gyfer gweithio tu allan, ond mae wastad angen côt ar gyfer mynd allan os yw hi'n glawio.

Sicrhewch hefyd bod enw eich plentyn wedi ei ysgrifennu neu bwytho ar bob dilledyn os gwelwch yn dda!

Rydym yn ceisio cynnal boreau achlysurol o gyfnewid dillad – cyfle i roi a derbyn yn rhad ac am ddim.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig grant drwy Gyngor Gwynedd. Mae'r arian (£125 i bob disgybl eleni) ar gael i ddisgyblion sy'n derbyn Cinio Ysgol am Ddim neu sy'n derbyn gofal.

www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Ysgolion-a-dysgu/Cymorth--cefnogaeth-ariannol/Grant-gwisg-ysgol-a-datblygu-disgyblion.aspx

Cysylltu â'r swyddfa budd-daliadau

Ffôn: 01286 682689

E-bost: budd-daliadau@gwynedd.llyw.cymru



*A school uniform has been adopted because we believe that a school uniform promotes pride in the school as well as a sense of belonging. **Children are expected to be neatly presented and dressed in a manner which conforms to the colours of the school uniform.** For those who wish to have clothing with the logo, it is available from Dewi Lake lakedigital.co.uk.*

Every child should have trainers, shorts and a T shirt for PE. It is easier to leave the kit in school. Bikinis are unacceptable for swimming lessons. If children wish to wear ear-rings, then only 'studs' are permitted for safety reasons. During the hot weather, a cap and sun screen are also needed. A coat is always needed for going outside when raining.

We will occasionally ask your child to bring wellingtons and clothes that you don't mind dirtying for their work outdoors.

Please ensure that your child's name is written or sewn on all clothing!

We strive to have occasional clothes swapping mornings – bring and take for free.

The Welsh Government offer a grant through Gwynedd Council. The funding (£125 per pupil for this year only) is available to looked after pupils or those who receive Free School Meals:

www.gwynedd.llyw.cymru/en/Residents/Schools-and-learning/Financial-help-support/School-uniform-and-pupil-development-grant.aspx

Contact the Benefits office

Phone: 01286 682689

E-mail: budd-daliadau@gwynedd.llyw.cymru

IAITH YR YSGOL Categori 3 / SCHOOL LANGUAGE Category 3

DIFFINIAD LLYWODRAETH CYMRU AM DDARPARIAETH Y GYMRAEG

<https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-12/categoreiddio-ysgolion-yn-ol-y-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg-dogfen-ganllawiau-anstatudol-rhagfyr-2020-drafft.pdf>

Dyma ddiffiniad Llywodraeth Cymru o Gategori 3 – Ysgol Cyfrwng Cymraeg:

“Cymraeg yw’r brif iaith ar gyfer cyfathrebu Mewnol yn yr ysgol. Mae’n cyfathrebu â rheini a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg, neu’n ddwyieithog yn ôl yr angen. Mae hon yn ysgol sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi’r dysgwyr i ddefnyddio’r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a’r tu allan iddi. Mewn lleoliad trochi mae pob dysgwr yn cael ei addysgu’n llawn yn y Gymraeg gyda’r Saesneg yn cael ei defnyddio ar brydiau i sicrhau dealltwriaeth yn ystod y cyfnod trochi cynnar. O 7 oed ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol y dysgwr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg.”

Mae Ysgol y Gorlan yn y categori hwn. Cymraeg yw iaith bob dydd yr ysgol hon. Rhoddir pwyslais ar ddefnyddio’r iaith yn naturiol i wahanol ddibenion o fewn bywyd beunyddiol yr ysgol. Mae Awdurdod Addysg Gwynedd yn cynnig darpariaeth arbennig ar gyfer hwyrdyfiaid.

Rydym yn annog a chefnogi oedolion sy’n awyddus i ddysgu Cymraeg. Gallem eich cyfeirio at eraill yn y gymuned sy’n fodlon eich cynorthwyo. Dewch i holi a chewch gefnogaeth llwyr ganddom.

Gwynedd 2022-2032

[Cynllun-Strategol-y-Gymraeg-mewn-Addysg.pdf \(llyw.cymru\)](#)

[Welsh-in-Education-Strategic-Plan.pdf \(llyw.cymru\)](#)

SCHOOL CATEGORIES ACCORDING TO WELSH MEDIUM PROVISION

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2021-12/guidance-on-school-categories-according-to-welsh-medium-provision.pdf>

This is the Welsh Government’s definition of Category 3 , Welsh medium schools : _

“Welsh is the school’s main language of internal communication. Communication with parents and carers is in either English, Welsh or bilingually as needed. This is a school with a strong Welsh language ethos at its core, supporting and enabling learners’ Welsh language use in all social context in and outside of school. In a Welsh immersion setting all learners are taught fully in Welsh, with English being used on occasion to ensure understanding during early immersion. From aged 7 onwards at least 80% of learner’s school activities (both curricular and extra-curricular) will be in Welsh.”

Ysgol y Gorlan is within this category. Welsh is the everyday language of this school. Emphasis is placed on using the language naturally for different purposes within day-to-day life of the school. Gwynedd Education Authority offers specific provision for late-comers.

Those of you whose children become part of a bilingual situation for the first time should not feel threatened or that you do not belong. We fully support and advise many adults who decide to learn the language – we can direct you to various organisations to help and we will always fully support you. Just come and ask!

SIARTER IAITH

Rydym yn hyrwyddo nŵd Siarter Iaith y Gymraeg (Llywodraeth Cymru), sef *ysbrydoli defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd.*"

<https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2020-12/categoreiddio-ysgolion-yn-ol-v-ddarpariaeth-cyfrwng-cymraeg-dogfen-ganllawiau-anstatudol-rhagfyr-2020-drafft.pdf>

Nod Llywodraeth Cymru yw cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae hwn yn nod tymor hir, ac mae gan y system addysg gyfraniad allweddol i'w wneud er mwyn ei wireddu. Er mwyn cyflawni'r nod, bydd angen datblygu'r cwricwlwm er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yng Nghymru yn gallu datblygu'i sgiliau iaith Gymraeg i'w defnyddio'n gymdeithasol ac mewn gwaith yn y dyfodol. Un o'r nodau allweddol o fewn strategaeth Cymraeg 2050 yw sefydlu arferion cadarnhaol o ran defnyddio'r iaith, ynghyd â chyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.



Siarter iaith



We promote the aim of the Welsh Government's Language Charter which is to "inspire the use of Welsh in all aspects of life." It encourages participation from every member of the school community - pupils, parents, school governors and the wider community.

<https://hwb.gov.wales/storage/3b73bf7c-640d-4c34-855d-9586b0b30c80/siarter-iaith-framework.pdf>

The Welsh Government aims to have a million Welsh speakers by 2050. This is a long-term aim, and the education system has a key role to play in achieving it. In order to achieve the aim, changes will be needed to the curriculum to ensure that all learners in Wales are able to develop their Welsh language skills for social and work use in the future. One of the key aims within the 2050 Welsh strategy is to embed positive language use practices supported by formal and informal opportunities to use Welsh socially.

Education in Gwynedd - Welsh is:

- the language of schools in Gwynedd;
- the language of business and communication in schools in Gwynedd;
- the language of teaching and learning in every subject (except for English); and
- the language of teachers, pupils and every aspect of school life.



Gwynedd has Language Immersion Centres for children. Immersion in Welsh helps learners entering Welsh-medium education at a later stage (typically after the age of seven) and pupils for whom Welsh may not have been part of their daily routine, to gain the skills and confidence needed to continue their learning through Welsh.

[Canolfannau iaith Gwynedd Language Centres \(canolfannau-iaith-gwynedd.cymru\)](http://canolfannau-iaith-gwynedd.cymru)

CLWB GOFAL A BRECWAST / PRE-SCHOOL AND BREAKFAST CLUB 8.10-8.40

Ymwrwymod Llywodraeth Cymru i roi brecwast dyddiol, iach am ddim i bob plentyn o oedran ysgol gynradd sydd wedi'i gofrestru mewn ysgol yng Nghymru. **Croesewir plant Meithrin, ond mae'n ofynnol eu yn gallu bwydo eu hunain os am fynychu.**



Mae Clwb Gofal Cyn –Ysgol ar gael bob bore i ddisgyblion o 8.10yb ymlaen am ffi o £1 y dydd, yn daladwy ar lein drwy School Gateway. Ceir brecwast am ddim fel rhan o hyn. Mae disgownt ar gyfer teuluoedd o 3 neu fwy o blant cynradd sy'n defnyddio'r clwb gofal cyn-ysgol.

Mae Clwb Brecwast **am ddim** ar gael rhwng 8.30yb ac 8.40yb. **Noder bod y drws yn cau am 8.40 a rhaid bod yn bendant am hyn neu nid oes digon o amser clirio a glanhau gan y Staff.**

Bydd goruchwyliaeth yn trosglwyddo i ofal yr ysgol am 8.50 yb. Disgwylir i bob plentyn ymddwyn yn briodol yn ystod y Clwb Brecwast, yn union fel mae'r disgwyl am weddill y dydd. Os nad, yna yn anffodus bydd rhaid cael trafodaeth am addasrwydd y trefniant gyda chi.

*The Welsh Assembly Government committed to provide a free, healthy breakfast at school each day for all children of primary school age in Wales. **Nursery pupils are obviously welcomed, but they are expected to be able to successfully feed themselves.***

*A Pre-School Care Club is available every morning from 8.10 onwards for a daily fee of £1, payable online via School Gateway. Breakfast is provided during this time. There is a discount for families with 3 or more children in primary school. A **free Breakfast Club** is available between 8.30am and 8.40am. **Please note that the last admission is 8.40 and that this must be adhered to in order to allow time for Staff to clean and clear.***

Supervision is transferred to school at 8.50 am. Every child who attends is expected to behave appropriately, as is expected for the rest of the school day. If a child cannot abide to this then we will have to discuss the suitability of using the facility.

BOCS BWYD / LUNCH BOX

Mae bocsys cinio yn gallu darparu amgylchedd delfrydol i germau gwenwyn bwyd dyfu ynddynt. Mae hi felly'n bwysig bod rhieni/gofalwyr sy'n darparu bocsys cinio yn ymwybodol o bwysigrwydd hylendid bwyd da ac yn paratoi ac yn storio bwyd eu plant mewn modd diogel. Gan ein bod yn berchen ar yr "Wobr Ansawdd Cenedlaethol Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru" gofynnir ichi ddilyn canllawiau'r Llywodraeth (yng nghefn y llawlyfr) parthed cadw'r bocs bwyd yn iach. Gofynnir i chi'n garedig sicrhau bod unrhyw becyn wedi ei agor yn barod ar gyfer eich plentyn.



Packed lunch boxes can provide food poisoning germs an ideal environment in which to grow. It is therefore important that parents/carers who provide packed lunches are aware of the importance of good food hygiene, and prepare and store their children's food safely. Since we have been awarded the "National Quality Award of the Welsh Network of Healthy School Schemes" we ask that you please follow the Welsh Government's recommendations (included in the back of this handbook) in order to keep a healthy lunch box. We ask that you kindly ensure any packets are already opened for your child.

CINIO YSGOL / SCHOOL DINNERS

Ym Medi, bydd cinio am ddim ar gyfer plant y Derbyn hyd at flwyddyn 6 drwy gynllun Llywodraeth Cymru. Mae cinio ysgol am ddim ar gael ar gyfer rhai disgyblion-ydym yn annog pob rhiant sydd yn tybio eu bod yn gymwys i dderbyn cinio i holi yn y swyddfa budd-dal neu gwirio drwy'r linc www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Ysgolion-a-dysgu/Cinio-ysgol--clwb-brecwast.aspx

Petai eich plentyn angen diet arbennig, neu petai unrhyw fwyd angen cael ei osgoi, rydym yn gofyn yn garedig i chi adael i gogyddes yr ysgol, Mrs Emma Page wybod drwy lythyr. Gallwch wneud apwyntiad i drafod hyn ymhellach drwy gysylltu â swyddfa'r ysgol. Gwneir pob ymdrech i gadw at y fwydlen gyhoeddwyd, ond ar adegau mae'n gorfod newid oherwydd ymarferoldeb derbyn archebion.



In September, all pupils from Reception to Year 6 pupils will have free school meals via the Welsh Government's initiative. Free school meals are available for some children-we encourage all parents who are entitled to claim to check with the Benefits Office or follow the link www.gwynedd.llyw.cymru/en/Residents/Schools-and-learning/School-meals-and-breakfast-clubs.aspx

[breakfast-clubs.aspx](http://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Residents/Schools-and-learning/School-meals-and-breakfast-clubs.aspx)

Should a special diet be necessary for your child, please inform Mrs Emma Page, the school cook in writing via the school office. We do our best to follow the published menu, but sometimes, the practicalities of food delivery can cause a change.

AMSER EGWYL / BREAK TIME

Un agwedd o'r Rhwydwaith Ysgolion Iach Cymru yw annog bwyta'n iach felly dim ond ffrwythau megis afalau, bananas ac orennau caniateir ar gyfer amser egwyl y bore. **Ni chaniateir fferins na chreision.**

Mae llefrith ar gael am ddim I blant Meithrin-Blwyddyn 2, a gall y gweddill brynu llefrith pe dymunant am 10c y dydd. Er mwyn hwyluso'r archebu, hoffem wybod ar ddechrau'r tymor os yw eich plentyn yn dymuno cael llefrith ai peidio. Mae dŵr ar gael i'r plant o'r ffynnon ddwr. Gofynnir i'r plant fynd â'u poteli dŵr adref ar ddydd Gwener a'u dychwelyd wedi eu golchi ar fore Llun.

*One aspect of the Welsh Network of Healthy School Scheme is encouraging only fruit such as apples, bananas and oranges during morning break. **Sweets and crisps are not allowed.***

Free milk is available to Nursery-Year 2 pupils, with all others able to buy milk if they wish to do so at 10p a day. Since we have to pre-order, please inform us at the beginning of term if your child wants milk. Water is also available for the children. The children are asked to take their water bottles home on Friday to be cleaned before returning on Monday.

Neges bwysig am dorri grawnwin / Important message for cutting grapes



CYFLE CYFARTAL / EQUAL OPPORTUNITIES

Prif athroniaeth ac amcanion Ysgol y Gorlan yw bod gonestrwydd, urddas a gwerth pob unigolyn o'r pwysigrwydd mwyaf. Yn wir, mae'r ysgol yn ymfalchio yn ei hethos cynhwysol.

Ehangir gorwelion bechgyn a genethod drwy greu amgylchedd lle ni cheir gwahaniaethu ar sail rhyw a lle herir ystrydebau traddodiadol. Hyrwyddir cyfleoedd cyfartal i bawb. Mae'r canlynol yn warchodol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 :- oedran, ailbennu rhywedd, rhyw, hil – yn cynnwys tarddiad ethnig neu genedlaethol, lliw neu genedligrwydd, anabledd, beichiogrwydd a mamolaeth, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred – gan gynnwys diffyg cred, priodas a phartneriaeth sifil. Sicrheir bod Ysgol y Gorlan yn glynu wrth yr deddfau perthnasol wrth benodi staff. Mabwysiadwyd polisi Cydraddoldeb Hiliol gan yr ysgol, sydd yn nodi ymrwymiad yr ysgol i hyrwyddo cyfle cyfartal, hyrwyddo cysylltiadau da rhwng aelodau gwahanol grwpiau a chymunedau hiliol, diwyllianol a chrefyddol ac i osgoi gwahaniaethau anghyfreithlon. Ni adroddwyd ar unrhyw achos o hiliaeth yn yr ysgol.

Cynllun Strategol Cydraddoldeb Gwynedd 2020-2024 [CYNLLUN-CYDRADDOLDEB.pdf](#) (llyw.cymru)



Ysgol y Gorlan's main philosophy and aims are that the honesty, dignity and integrity of every individual is of the utmost importance. As a school we pride ourselves on our inclusive ethos.

Both girls' and boys' horizons are expanded in an atmosphere which does not differentiate according to sex and which challenges traditional concepts. Equal opportunities across the curriculum are encouraged for all. The following are protected characteristics under the Equality Act 2010 : Age, Gender reassignment, Sex, Race – including ethnic or national origin, colour or nationality, disability, pregnancy and maternity, sexual orientation, religion or belief - including non-belief, marriage and civil partnership Ysgol y Gorlan follow these Acts when appointing staff. The School has adopted a Racial Equality Policy, which involves promoting equal opportunities, promoting good relationships with members of different racial, cultural and religious groups and communities, and avoiding illegal differentiation. No case of racial discrimination has been reported at the school.

Gwynedd's Strategic Equality Plan 2020-2024 [EQUALITY-PLAN.pdf](#) (llyw.cymru)

DISGYBLION AG ANABLEDDAU/CYNLLUN HYGIRCHEDD PUPILS WITH DISABILITIES/ACCESSIBILITY PLAN

Gwneir trefniadau arbennig rhwng yr ysgol a'r cartref pan fo disgybl sydd ag anableddau neu Anghenion Dysgu Ychanegol neu Gynhwysol yn cychwyn yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn sensitif i anghenion disgyblion sydd ag anableddau ac yn gwneud pob ymdrech cadarnhaol i'w cynnwys ym mhob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol. Gellir gofyn am gopi o'r cynllun hygyrchedd pe dymunwch ei ddarllen. Buasai'r Llywodraethwyr yn gefnogol i unrhyw addasiadau rhesymol a fyddai angen gwneud i'r adeilad ar gyfer derbyn plentyn neu oedolyn gydag anabledd.

...

Special arrangements are made between school and home when a pupil with disabilities or Additional Learning Needs or Inclusion issues starts at the school. The school is sensitive towards the needs of pupils with disabilities and makes every positive effort to ensure that they are included in all aspects of the school's life and work. A copy of the Accessibility Plan is available should you require it.

The Governors would support any necessary reasonable adaptations to the building to receive a disabled child or adult.

PLANT SY’N DERBYN GOFAL / CHILDREN IN CARE

Mae'r ysgol yn gweithredu Polisi Plant Mewn Gofal ac mae gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau bod y plant hyn yn cael mynediad i'r addysg briodol ar gyfer eu gallu neu dawn ac yn derbyn pob cyfle a chymorth i ddatblygu'n addysgol ac yn gymdeithasol. Y person sydd â chyfrifoldeb dros hyrwyddo cyflawniad plant sy'n derbyn gofal mewn addysg yw y Pennaeth.

The school implements a Children in Care Policy and has procedures to ensure that any such children have access to an education that is appropriate to their abilities and aptitudes, and receive every possible opportunity and support to develop both educationally and socially. The designated person with responsibility for promoting the achievements of children in care in education is the Head teacher.

Y CYNGOR YSGOL / THE SCHOOL COUNCIL



‘Rydym, fel ysgol yn gwneud ein gorau i sicrhau awyrgylch dysgu diogel, hapus a theg i'r disgyblion. Mae llais y plentyn yn hollbwysig yma. Mae'r Cyngor Ysgol yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion leisio eu pryderon a'u hanghenion. Cânt gyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau datrys problemau mewn modd strwythuredig ac i gyfrannu'n ymarferol at benderfyniadau sydd yn ymwneud â hwy ac at rai materion rheolaethol. Mae gweithrediad effeithiol Cyngor Ysgol yn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o brosesau democrataidd ac yn datblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb tuag at gymuned ac amgylchedd yr Ysgol.

As a school endeavour to provide a secure, happy and fair learning environment for the pupils. The pupils' voice is vital to us. The School Council provides opportunities for pupils to voice their worries and their needs. They are given opportunities to develop their problem solving skills in a structured manner and to contribute to decisions, which are relevant to them and to some managerial issues. The effective operation of the School Council develops a feeling of responsibility towards the community and the environment of the school.



Ym Mehefin 2022, teithiodd aelodau hŷn y Cyngor draw i Murcia yn Sbaen efo criw o Flwyddyn 4 ac Ysgol Llanystumdwy er mwyn cyfarfod a threulio amser yng ngwmni ffrindiau newydd. Roeddynt yn Lysgenhadwyr gwych!
In June, 2022, the older members of the Council travelled with a group from Year 4 and Ysgol Llanystumdwy, over to Murcia, Spain to meet and spend time with new friends. They were marvelous ambassadors!



TREFNIADAETH DIOGELWCH

Ymdrechir sicrhau diogelwch y plant a'r ysgol fel a ganlyn:-

- Goruchwyliaeth gyson o'r plant ar y buarthau yn ystod amseroedd chwarae a chinio. Adnabyddir Staff yn hawdd drwy siacedi llachar.
- Mae aelodau o staff wedi eu hyfforddi mewn Cymorth Cyntaf. Rhoddir nodyn i'ch hysbysu o unrhyw anaf.
- Cynhelir ymarferion tân rheolaidd ac arolwg blynyddol o'r system larwm tân a diffoddwyr.
- Gosodir cyfarwyddiadau tân ym mhob ystafell.
- Rhoddir hysbysiad ffurfiol ar gychwyn pob cyfarfod cyhoeddus o'r trefniadau tân.
- Cynhelir arolwg blynyddol o'r adeiladau gan dynnu sylw'r Adran Eiddo i unrhyw waith atgyweirio sydd ei angen fel y cyfyd.
- Cynhelir asesiadau risg o'r adeilad a'r tir.
- Cynhelir arolwg blynyddol o system larwm atal lladron.
- Cynhelir hyfforddiant croesi'r ffordd, beicio a sgwtera drwy Swyddogion Gwynedd / Sustrans.
- Sicrheir goruchwyliaeth resymol wrth i'r plant adael yr ysgol.
- Gwneir asesiad risg drwy drefn EVOLVE ar gyfer pob ymweliad y tu allan i furiau'r ysgol ac mae'r rhain ar gael i'w gweld yn yr ysgol.
- Mae holl ddrysau'r adeilad ar glo yn ystod y dydd. Ni chaniateir i ddisgyblion ateb y drws.
- Mae trefniadau ar y gweill i godi ffensys a giatiau newydd o amgylch tir yr Ysgol.
- Ni dderbynir agwedd/ ymateb bygythiol gan unrhyw ymwelydd.
- Mae'r heddlu yn ymwelwyr cyson yn atgyfnerthu negeseuon o ddiogelwch.
- Mae ein Llysgenhadon Comisiynydd Plant Cymru yn rheadru negeseuon o ddiogelwch ac hawliau plant.

SAFETY ARRANGEMENTS

All attempts will be made to safeguard the children and the building by :-

- Constant supervision of the children during play and lunch times. Staff are easily recognized via high-vis jackets.
- Staff members are trained in First Aid. You will be given a record of any injury.
- Regular fire drills are held as well as an annual inspection of the fire alarm system and extinguishers.
- Fire regulations/directions have been placed in all rooms.
